# Llawlyfr Llwybrau Dysgu Cyfnod Allweddol 4

Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin



2026 - 2028

# Rhagarweiniad

Ysgol Gyfun Gymraeg
BRO MYRDDIN
Welsh Comprehensive School

Croesyceiliog
Caerfyrddin / Carmarthen SA32 8DN
Ffôn / Tel: (01267) 234829
E-bost / E-mail: swyddfa@bromyrddin.org
Pennaeth / Headteacher: Dr Llinos Jones

Annwyl rieni / gwarcheidwaid

Mae'n bleser gennyf i gyflwyno y llyfryn dewisiadau hwn i'ch sylw. Hyderaf y bydd yn gymorth i chi a'ch plentyn wrth ddewis pa bynciau y byddant yn eu hastudio dros y ddwy flynedd nesaf. Dyma gyfnod cyffrous a phwysig iawn i'ch plentyn wrth gamu o flwyddyn 9 i flwyddyn 10.

Mae'n gyfnod dwys o feddwl a gwneud penderfyniadau. Fel y gwelwch, mae llu o bynciau i ddewis ohonynt ac mae'n holl bwysig, wrth gwrs, eich bod yn trafod y dewisiadau yn llawn gyda'ch plentyn. Rwy'n eich annog i ddarllen y llyfryn yn ofalus gyda'ch plentyn er mwyn dewis y cyfuniad gorau posibl o'r pynciau sydd ar gael. Cofiwch ein bod yn disgwyl i bawb wneud eu gorau i gyrraedd eu potensial llawn, felly mae'n rhaid iddynt ddewis yn ddoeth. Bydd eich plentyn yn astudio eu pynciau dewisol dros y ddwy flynedd ym mlwyddyn 10 ac 11 ac, felly, mae'n rhaid dewis pynciau y byddant yn medru llwyddo ynddynt ac sydd ar lefel addas i'w gallu. Byddai'n werth i'ch plentyn hefyd i drafod gyda'r athrawon pwnc cyn cyrraedd y penderfyniad terfynol.

Rydych eisoes wedi cael cyfle i drafod perfformiad presennol eich plentyn yn ystod noson rhieni blwyddyn 9 ar y 29ain o Ionawr. Mae noson opsiynau hefyd wedi ei threfnu i drafod dewisiadau ar nos Fawrth, 3ydd o Fawrth yma yn yr ysgol. Os byddwch am sgwrs bellach, bydd Mrs Gwenan Morgans, Pennaeth Blwyddyn 9 neu Mrs Nia Courtney, ein Pennaeth Cynorthwyol yn barod i'ch cynorthwyo.

Pob hwyl gyda'ch penderfyniadau.

Yn ddiffuant,

Dr Llinos Jones
Pennaeth

# Dechrau ar y Daith yng Nghyfnod Allweddol 4

## **Cyrsiau Cyfnod Allweddol 4**

Ceir amrywiaeth o gymwysterau yng Nghyfnod Allweddol 4 sy'n cynnwys rhai cyrsiau mwy academaidd a rhai galwedigaethol.

## **Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd**

Cyflwynir graddau TGAU i ddisgyblion a ddynodir gan lythrennau A* - G. Bydd yr arholiadau nid yn unig yn profi'ch dealltwriaeth a'r sgiliau ymarferol, ond hefyd eich gallu i gymhwyso gwybodaeth.

## **Lefel 1/2 Galwedigaethol**

Caiff cyrsiau Lefel 1/2 eu graddio ar raddfa Rhagoriaeth*, Rhagoriaeth, Teilyngdod, Llwyddiant Lefel 2 neu Lwyddiant Lefel 1. Mae'r graddau Rhagoriaeth * - Llwyddiant Lefel 2 yn cyfateb i raddau TGAU A* - C a Llwyddiant Lefel 1 yn cyfateb i radd E TGAU. Fel arfer, mae elfen ymarferol i gyrsiau galwedigaethol.

## **Tystysgrif Lefel Mynediad**

Bydd rhai disgyblion yn astudio cwrs / cyrsiau Tystysgrif Lefel Mynediad ac yn cyfuno'r cyrsiau yma gyda rhai pynciau TGAU. Mae canran uchel o'r asesiad Tystysgrif Lefel Mynediad wedi'i seilio ar waith dosbarth, gwaith llafar, gwaith cwrs a gwaith ymarferol. Bydd yr opsiwn i astudio cymhwyster Tystysgrif Lefel Mynediad yn dibynnu ar allu'r disgybl. Mae'r cymhwyster hwn yn berthnasol i'r pynciau craidd yn unig ac yn cael eu graddio o Lefel 1 – Lefel 3.

# Cwricwlwm CA4

Bydd pob disgybl sy'n dechrau astudio cyrsiau TGAU o fis Medi 2025 yn astudio'r pynciau craidd a'r pynciau statudol. Bydd hefyd angen dewis tri phwnc opsiwn i astudio.

| **Pynciau Craidd** | **Pynciau Dewisol** | **Pynciau Statudol** |
|---|---|---|
| Cymraeg | Gellir dewis tri phwnc opsiwn. Gweler y llawlyfr hwn am fwy o wybodaeth am bob pwnc. | Addysg cydberthynas a rhywioldeb |
| Saesneg | | Chwaraeon |
| Mathemateg | | Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg |
| Gwyddoniaeth Dwbl | | |
| Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru | | |

**Beth sydd yn rhaid ystyried wrth wneud y dewisiadau?**

- Ydych chi'n mwyhau'r pwnc?
- Ydych chi'n credu y gallwch chi lwyddo yn y pwnc?
- Dewiswch bynciau sydd ar y lefel gywir i'ch gallu
- Dewiswch amrywiaeth o bynciau
- Ydych chi wedi gofyn am gyngor oddi wrth eich Pennaeth Blwyddyn, Tiwtor Dosbarth ac Athrawon Pwnc?
- Peidiwch a dewis pwnc oherwydd bod eich ffrind yn gwneud y pwnc
- Ydych chi'n deall beth yw gofynion y pwnc?

Os nad oes digon o ddisgyblion yn dangos diddordeb mewn astudio pwnc, mae'n bosibl na fyddwn yn cynnig y pwnc hwn.

# Pynciau Craidd

# Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth

Staff cyswllt: Mrs Helen Evans

| | | |
|---|---|---|
| Bwrdd Arholi: CBAC | Math o gymhwyster: TGAU Dwyradd | Asesiad 60% arholiad; 40% asesiad di - arholiad |

## Pam astudio'r pwnc?

Mae'r Gymraeg yn bwnc gorfodol a disgwylir i bob disgybl yn yr ysgol i ennill cymhwyster yn y pwnc. Byddai ennill gradd C neu uwch yn y pwnc yn fanteisiol iawn i ti wrth ddewis cyrsiau addysg uwch ac addysg bellach yn ogystal â gyrfa. Dyma gyfle i ddatblygu dy sgiliau cyfathrebu ymhellach.

## Cynnwys y cwrs

Bydd astudio'r cwrs Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg yn rhoi'r cyfle i ti ddatblygu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu. Canolbwyntir ar ymateb i ddarllen, ysgrifennu'n greadigol a ffeithiol yn ogystal â thargedu cywirdeb iaith. Bydd cyfle hefyd i astudio nofel, straeon byrion, casgliad o gerddi a ffilm.

## Asesiadau

Asesir 60% o'r cwrs trwy arholiadau ysgrifenedig a 40% trwy asesiadau di-arholiad a thasg lafar.

## Asesiadau

Bydd astudio'r pwnc hwn yn rhoi 2 gymhwyster TGAU i chi, wedi eu hasesu mewn 6 uned ar draws ddwy flynedd.

Uned 1 - Naratif: Astudio nofel. 15% o'r cymwysterau.

Uned - Hunaniaeth: Astudio ffilm ac asesiad llafar. 10% o'r cymwysterau.

Uned 3 – Agweddau: Ymateb i gerddi a chyflwyno gwybodaeth ar lafar.

Uned 4b – Cysylltiadau Ieithyddol: Ymateb i ddarllen ac ysgrifennu'n ffeithiol a chreadigol. 22.5% o'r cymwysterau.

Uned 5 – Ymateb a Chreu: Trafodaeth Grŵp ac Ysgrifennu creadigol. 20% o'r cymwysterau.

Uned 6 – Cyfleu ystyr: Astudio tair stori fer. 22.5% o'r cymhwyster.

# Saesneg Iaith a Llenyddiaeth

Staff cyswllt: Mrs Siwan Rees

## Pam astudio'r pwnc?

| Bwrdd Arholi: CBAC | Math o gymhwyster: TGAU Dwyradd | Asesiad 60% arholiad; 40% asesiad di - arholiad |
|---|---|---|

Mae Iaith a Llenyddiaeth Saesneg yn bwnc gorfodol a disgwylir i bob disgybl ym Mlwyddyn 11 i ennill cymhwyster yn y pwnc. Bydd yn datblygu'ch dealltwriaeth a'ch gwerthfawrogiad o iaith lafar ac ysgrifenedig, ac yn eich arfogi i gyfathrebu'n effeithiol mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Byddwch yn datblygu uwch-fedrau darllen trwy astudio'r pwnc, yn cynnwys darllen yn feirniadol. Fel arfer, mae cyflogwyr, prifysgolion a cholegau yn gofyn am radd C neu uwch yn y pwnc.

## Cynnwys y cwrs

Cyniga'r pwnc hwn gyfleoedd i ddatblygu sgiliau siarad a gwrando trwy roi cyflwyniadau unigol a chymryd rhan mewn trafodaethau grŵp a phâr. Cewch fynediad at ystod o destunau ffeithiol a ffuglennol, fydd yn eich annog i ddatblygu'ch llais unigol, a hynny mewn tasgau llafar ac ysgrifenedig, gan wella eich geirfa a'ch mynegiant. Miniogir eich sgiliau gwerthuso, dadansoddi a chymharu trwy ymateb i destunau llenyddol, yn ogystal â datblygu empathi trwy archwilio cymeriadau, themâu a chyd-destunau gwahanol.

## Asesiadau

Bydd astudio'r pwnc hwn yn rhoi 2 gymhwyster TGAU i chi, wedi eu hasesu mewn 6 uned ar draws ddwy flynedd.

**Blwyddyn 10:**

Uned 1 – arholiad 1.5 awr ar ddiwedd blwyddyn 10.

Uned 2 – un traethawd ac un cyflwyniad llafar unigol i'w cwblhau yn ystod y flwyddyn.

Uned 3 – un tasg ysgrifenedig ac un trafodaeth grŵp i'w cwblhau yn ystod y flwyddyn.

**Blwyddyn 11:**

Uned 4 – arholiad 1.5 awr ar ddiwedd blwyddyn 11

Uned 5 – un traethawd ac un trafodaeth pâr i'w cwblhau yn ystod y flwyddyn

Uned 6 – arholiad 1.5 awr ar ddiwedd blwyddyn 11.

# Mathemateg a Rhifedd

Staff cyswllt: Mrs Luned Davies

| Bwrdd Arholi: CBAC | Math o gymhwyster: TGAU Dwyradd | Asesiad 100% arholiad |
|---|---|---|

## Pam astudio'r pwnc?

Mae'r cymhwyster TGAU Mathemateg a Rhifedd yn cefnogi dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd mathemateg a meysydd eraill o'r cwricwlwm. Trwy astudio'r pwnc, byddant yn:

- datblygu eu dealltwriaeth gysyniadol wrth esbonio, mynegi a chynrychioli cysyniadau
- cyfleu sefyllfaoedd haniaethol a senarios byd go iawn gan ddefnyddio symbolau a mynegiadau mathemategol
- datblygu eu gallu i ddefnyddio ffeithiau, technegau a pherthnasoedd mathemategol wrth ddatrys problemau
- adnabod strwythurau mathemategol sylfaenol a datblygu strategaethau i'w datrys
- sicrhau sylfaen gref mewn mathemateg ariannol i'w paratoi ar gyfer bywyd a byd gwaith
- datblygu hyder wrth ddefnyddio a chymhwyso technoleg ddigidol i helpu i ddatrys problemau mathemategol ac ystadegol.

## Cynnwys y cwrs

Mae'r cymhwyster TGAU Mathemateg a Rhifedd yn cael ei lunio ar sail y pum hyfedredd sef: **dealltwriaeth gysyniadol, cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau, rhwyddineb, rhesymu rhesymegol a chymhwysedd strategol.** Mae cynnwys y cymhwyster TGAU Mathemateg a Rhifedd yn seiliedig ar y cysyniadau mathemategol a rhifiadol canlynol: **Rhif, Algebra, Geometreg a mesurau, Ystadegaeth a Thebygolrwydd.**

## Asesiadau

**Uned 1 (Arholiad Ysgrifenedig):** Mathemateg Ariannol a Chymwysiadau Eraill o Rifedd (30% o'r cymhwyster)

**Uned 2 (Arholiad Ysgrifenedig)**: Papur digyfrifiannell (30% o'r cymhwyster)

**Uned 3 (Arholiad Ysgrifenedig):** Caniateir cyfrifiannell (40% o'r cymhwyster)

# Gwyddoniaeth Dwbl (Dwyradd)

Staff cyswllt: Miss Catrin Pritchard

| | | |
|---|---|---|
| Bwrdd Arholi: CBAC | Math o gymhwyster: TGAU Dwyradd | Asesiad 90% arholiad; 10% asesiad di - arholiad |

## Pam astudio'r pwnc?

Mae'r cymhwyster TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd) yn cefnogi dysgwyr i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o wahanol feysydd gwyddoniaeth, gan gynnwys bioleg, cemeg a ffiseg. Bydd y cwrs yn datblygu'ch dealltwriaeth o sut mae gwahanol feysydd gwyddoniaeth yn berthnasol iddynt yn bersonol, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ac
archwilio'r cysylltiadau rhwng testunau dysgu gwahanol o fewn pob disgyblaeth a rhyngddynt. Bydd astudio Gwyddoniaeth yn datblygu'r sgiliau i gwestiynu syniadau gwyddonol, gan ddefnyddio meddwl beirniadol a chreadigol i ddatrys problemau, deall perthnasoedd rhwng data, tystiolaeth a chasgliadau drwy ddadansoddiadau ac ymchwil feintiol ac ansoddol a chaniatáu i ddisgyblion deall a gwerthuso modelau gwyddonol.

## Cynnwys y cwrs

Bydd pob dysgwr TGAU yn astudio unedau ym Mioleg, Cemeg a Ffiseg yn Mlwyddyn 10 a 11. Ym mlwyddyn 10 astudir Sail Bywyd (Bioleg), Sylweddau Cemegol a sut maen nhw'n ymddwyn (Cemeg) a Grymoedd a Mudiant a'r Bydysawd (Ffiseg).

Ym mlwyddyn 11 astudir Parhad bywyd (Bioleg), Bondio Cemegol, Adweithiau ac Adnoddau (Cemeg) a Thonnau, Trydan a egni (Ffiseg).

## Asesiadau

Fel rhan o'r cwrs hwn, bydd angen sefyll tri arholiad ym Mlwyddyn 10 ac yna tri ychwanegol ym Mlwyddyn 11. Mae pob un arholiad gwerth 90% o'r radd derfynol.

Bydd hefyd rhaid cwblhau tasg ymarferol o dan reolaeth ym Mlwyddyn 11 sydd gwerth 10% o'r radd derfynol.

# Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru

Staff cyswllt: Miss Elin Jones

| Bwrdd Arholi: CBAC | Math o gymhwyster: TGAU | Asesiad: 100% di-arholiad |
| --- | --- | --- |

## Pam astudio'r pwnc?

Bydd pawb yn astudio Bagloriaeth Cymru neu gymhwyster gyfystyr.

## Cynnwys y Cwrs

Mae cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn unigryw i Gymru. Mae'n helpu i baratoi myfyrwyr rhwng 14 a 19 oed ar gyfer y byd gwaith, ar gyfer astudio ymhellach ac ar gyfer bywyd. Mae'r cymhwyster yn asesu saith sgil dros tair cydran.

Yr Heriau

- Her Dinasyddiaeth Fyd-eang- Plastigion Untro a'u heffaith ar yr amgylchedd
- Her Menter a Chyflogadwyedd- Cynnig busnes ar gyfer y Sioe Frenhinol
- Project Unigol- Cywaith ymchwil estynedig o ddewis y disgybl

Y Sgiliau

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Ddigidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Creadigedd ac Arloesi
- Cynllunio a Threfnu
- Effeithlonrwydd Personol

## Asesiadau

Mae Bagloriaeth Cymru yn asesiad di-arholiad. Bydd y dair her yn cael eu cwblhau yn yr ystafell ddosbarth a'u marcio'n fewnol.

Bydd pob disgybl yn gwneud yr un gwaith. Bydd safon gwaith y dair her yn dyfarnu'r radd derfynol. Bydd gwaith sy'n cyrraedd Lefel 2 (Cenedlaethol) yn cael ei ddyfarnu o A*-C a'r gwaith sy'n cyrraedd Lefel 1 (Sylfaenol) yn cael ei ddyfarnu fel 'Llwyddo'.

# Pynciau Dewisol

# Addysg Gorfforol ac Iechyd

Staff cyswllt: Mr John Norgrove

| Bwrdd Arholi: CBAC | Math o gymhwyster: TGAU | Asesiad 40% arholiad; 60% asesiad di - arholiad |
|---|---|---|

## Pam astudio'r pwnc?

Bydd cymhwyster yn y pwnc hwn yn eich galluogi i gymryd rhan mewn cwrs ymarferol, sydd wedi'i gynllunio i'ch annog i gael eich ysbrydoli, eich cymell a'ch herio. Byddwch yn caffael y wybodaeth, y ddealltwriaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd i ddatblygu a chynnal eich perfformiad mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol a deall y manteision i iechyd, ffitrwydd a llesiant. Bydd astudio TGAU Addysg Gorfforol ac Iechyd yn datblygu llawer o sgiliau trosglwyddadwy gan gynnwys cyfathrebu, sgiliau cyflwyno a pherfformio, gweithio mewn tîm, arwain, canolbwyntio, mireinio a hunanhyder. Mae'r posibiliadau o ran gyrfa sy'n dod o astudio Addysg Gorfforol ac Iechyd yn helaeth.

## Cynnwys y Cwrs

**Uned 1: Egwyddorion Addysg Gorfforol ac Iechyd**

- Iechyd, llesiant, chwaraeon a gweithgarwch corfforol.
- Deall y ffactorau sy'n effeithio ar lefelau gweithgarwch ac ar iechyd corfforol, cymdeithasol ac emosiynol gan gynnwys deiet a maeth, ffisioleg ac ymarfer corff, agweddau seicolegol, y dylanwad diwylliannol – gymdeithasol ar gyfranogiad a pherfformiad.

**Uned 2: Perfformio a Hyfforddiant personol**

- Perfformio'n effeithiol drwy ddatblygu sgiliau, strategaethau a/neu syniadau cyfansoddiadol fel perfformiad a/neu hyfforddwr.
- Datblygu a gweithredu gweithgaredd hyfforddiant personol drwy ddadansoddi anghenion, cynllunio, monitro ac adfyfyrio

## Asesiadau

**Uned 1: Egwyddorion Addysg Gorfforol ac Iechyd**

- Arholiad allanol digidol 90 munud o hyd
- 40% o'r cymhwyster

**Uned 2: Perfformio a Hyfforddiant Personol**

- Asesiad di-arholiad
- 60% o'r cymhwyster
- 120 marc
- Perfformio mewn dau gamp o'r rhestr gymeradwy neu un camp a darparu hyfforddiant
- Cynllunio, cyflawni a gwerthuso gweithgaredd hyfforddiant personol dros 8-10 wythnos ar gyfer camp neu weithgaredd corfforol o'r rhestr gymeradwy.

# Astudiaethau Crefyddol

Staff cyswllt: Mrs Gwenan Morgans

| | | |
|---|---|---|
| Bwrdd Arholi: CBAC | Math o gymhwyster: TGAU | Asesiad 60% arholiad; 40% asesiad di - arholiad |

## Pam astudio'r pwnc?

Mae gan brifysgolion a chyflogwyr barch mawr at TGAU Astudiaethau Crefyddol. Dyma bwnc gwerthfawr i astudio, gan ei fod yn:

- eich paratoi i weithio a delio â phobl o wahanol ddiwylliannau a chredoau.
- eich annog i wrando ar safbwyntiau pobl eraill a thrafod gwahanol faterion moesol.
- agor eich meddwl ac yn ehangu gorwelion.

## Cynnwys y Cwrs

Byddwch yn cael y cyfle i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o gredoau, gwerthoedd, dysgeidiaethau, arferion ac argyhoeddiadau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol. Teitlau'r unedau yw:

**Uned 1:** Credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol

**Uned 2:** Crefydd a pherthnasoedd

**Uned 3**: Rolau, hawliau a chyfrifoldebau

**Uned 4:** Hawliau dynol

## Asesiadau

**Blwyddyn 10**

**Uned 1**: Credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol.

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 15 munud (30% o'r cymhwyster).

**Uned 2:** Gwaith Cwrs 'Crefydd a Pherthnasoedd (20% o'r cymhwyster).

**Blwyddyn 11**

**Uned 3:** Rolau, hawliau a chyfrifoldebau.

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 15 munud (30% o'r cymhwyster).

**Uned 4:** Gwaith Cwrs 'Crefydd a Hawliau Dynol' (20% o'r cymhwyster).

# Addysg Gysylltiedig â Gwaith- Lefel 1/2

Staff cyswllt: Mrs Nia Courtney

| Bwrdd Arholi: Agored Cymru | Math o gymhwyster: Lefel 2 Galwedigaethol | Asesiad: 100% aseiniadau. Dim arholiad |
|---|---|---|

## Pam astudio'r pwnc?

Nid yw'r pwnc yma'n opsiwn sydd yn agored i bawb. Bydd yr ysgol yn adnabod disgyblion byddai'n elwa o astudio'r pwnc ac yn rhoi'r opsiwn iddynt astudio'r cymhwyster.

Mae'r cymhwyster yma'n helpu disgyblion i baratoi ar gyfer y byd gwaith ac i gyfrannu yn y gweithle, unai mewn rôl wirfoddol neu rôl â thal. Trwy astudio'r cymhwyster yma, bydd disgyblion yn:

- cynllunio ac archwilio llwybrau gyrfa a chyflogaeth posibl;
- deall y sgiliau, y gwerthoedd a'r agweddau sydd eu hangen yn y gweithle;
- deall sut mae'r hyn maent yn ei ddysgu yn berthnasol i'w dyfodol.

## Cynnwys y cwrs

Yn ddibynnol ar yr unigolion, bydd dewis gan yr ysgol i ddewis unedau addas ar gyfer y disgyblion.

Dyma rhai esiamplau o unedau'r cymhwyster:

- Cynllunio a pharatoi ar gyfer profiad gwaith
- Datblygu Technegau Cyfweld
- Gwneud cais am swydd
- Gweithio mewn tîm
- Archwilio entrepreneuriaeth
- Sgiliau Menter

## Asesiadau

Caiff yr holl waith ei asesu wrth gwblhau tasgau'n yr ystafell ddosbarth a thasgau ymarferol.

Nid oes arholiad.

# Adeiladwaith Lefel 2

Staff cyswllt: Mr Steffan Davies

| Bwrdd Arholi: CBAC | Math o gymhwyster: TGAU Lefel 2 Galwedigaethol | Asesiad: 25% arholiad; 75% aseiniad |
|---|---|---|

## Pam astudio'r pwnc?

Os oes gennych ddiddordeb mewn cwrs sydd yn eich paratoi ar gyfer gweithio yn y diwydiant adeiladwaith – dyma'r un i chi.

Mae'r diwydiant adeiladwaith yn cyflogi dros 3 miliwn o weithwyr yn y Deyrnas Unedig. Mae'r holl swyddi angen hunan gymhelliant, sgiliau rhifedd, cyfathrebu a datrys problemau, ynghyd â sbectrwm eang o sgiliau technegol a dealltwriaeth sylfaenol gysylltiedig. Gallwch ddefnyddio'r cymhwyster ar gyfer cais i Brifysgol neu fel llwybr dilyniant i amrediad eang o Gymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol mewn Adeiladwaith a dyfarniadau eraill.

## Cynnwys y Cwrs

Mae'r cwrs yn gyfle i chi ddysgu am y diwydiant adeiladu trwy astudio'r meysydd canlynol:

- Technegau ymarferol sydd yn gysylltiedig gyda'r diwydiant adeiladu.
- Prosesau a thechnegau ar gyfer cynllunio prosiectau adeiladu.
- Iechyd a diogelwch yn y gweithle.

## Asesiadau

Byddwn yn cael eich asesu trwy asesiadau mewnol ar waith cwrs.

Bydd arholiad ar ddiwedd Blwyddyn 10.

# Amaethyddiaeth

Staff cyswllt: Mrs Nia Courtney

| | | |
|---|---|---|
| Bwrdd Arholi: Pearson | Math o gymhwyster: Lefel 2 Galwedigaethol | Asesiad 100% aseiniadau |

## Pam astudio'r pwnc?

Os oes gennyt ddiddordeb mewn gweithio yn y diwydiant amaethyddiaeth a chefn gwlad, mae hwn yn gwrs addas i ti. Gallu di ddatblygu sgiliau ymarferol cychwynnol ac yn ogystal, dealltwriaeth a gwybodaeth i dy alluogi i weithio'n ddiogel ar fferm neu ystâd wledig. Mae'r cwrs hwn yn cael ei redeg mewn partneriaeth gyda Choleg Sir Gâr ac yn cael ei ddysgu gan arbenigwyr yn y maes. Mae'r cwrs hwn cyfwerth â dau TGAU. Nid oes rhaid i ti gael unrhyw wybodaeth arbennig cyn dechrau astudio'r cwrs hwn.

## Cynnwys y Cwrs

Bydd y cwrs yn rhoi'r cyfle i ti ddatblygu llawer o sgiliau a gwybodaeth. Bydd yn rhaid i ti astudio tair uned o waith. Bydd yr unedau hyn yn dy alluogi i ddatblygu dy sgiliau yn y meysydd canlynol:

- Gweithredu Peiriannau Amaethyddol.
- Sgiliau Amaethyddol Ymarferol
- Cynhyrchu Anifeiliaid Fferm

Wrth astudio'r cwrs hwn, byddi di'n cael y cyfle i ddatblygu dy sgiliau ymarferol ar fferm leol ac yn yr ystafell ddosbarth.

## Asesiadau

Bydd disgwyl i ti gyflwyno portffolio o waith a fydd yn cynnwys tystiolaeth o rai o'r aseiniadau, profion ymarferol ac arsylwadau y byddi di yn eu cwblhau naill ai yn y dosbarth neu ar fferm leol.

Nid oes arholiad.

Er gwybodaeth, nifer cyfyngedig o ddisgyblion sydd yn gallu astudio'r pwnc hwn.

# Busnes

Staff cyswllt: Mrs Melanie Rees

| | | |
|---|---|---|
| Bwrdd Arholi: CBAC | Math o gymhwyster: TGAU | Asesiad: 60% arholiad; 40% asesiad di-arholiad. |

## Pam astudio'r pwnc?

Bydd cymhwyster CBAC TGAU yn datblygu eich dealltwriaeth o'r gweithgareddau sy'n gwneud busnes yn llwyddiannus. Byddwch yn meithrin mewn weledìad i'r materion allweddol sy'n wynebu busnesau a ffyrdd o ddatrys y rhain. Byddwch yn ymgymryd ag ymchwil i lunio barn resymegol a meddwl yn feirniadol am fusnesau yn eich ardal.

Byddwch hefyd yn adfyfyrio ar weithgaredd busnes yng nghyd-destun yr amgylchedd a chynaliadwyedd. Byddwch hefyd yn archwilio tueddiadau'r farchnad swyddi ac yn deall gwahanol yrfaoedd

Mae TGAU Busnes yn cefnogi dysgwyr i feithrin: dealltwriaeth o'r gweithgareddau sy'n gwneud busnes yn llwyddiannus, dealltwriaeth o rôl a dylanwad busnes ac arloesedd ar bobl, ar leoedd ac ar y gymuned, dealltwriaeth o'r berthynas rhwng busnes a'r amgylchedd,  o dechnoleg a'i heffaith ar fusnes, ar yr amgylchedd ac ar bobl a dealltwriaeth o oblygiadau moesegol busnes.

## Cynnwys y Cwrs

Uned 1: Cyflwyniad i'r Byd Busnes

Uned 2: Ystyriaethau Allweddol Busnes

Uned 3: Strategaethau Busnes ar gyfer Llwyddo

Uned 4: Creu Busnes

## Asesiadau

Uned 1: Arholiad ysgrifenedig. 30% o'r cymhwyster.

Uned 2: Asesiad di – arholiad. 15% o'r cymhwyster.

Uned 3: Arholiad ysgrifenedig. 30% o'r cymhwyster.

Uned 4: Asesiad di – arholiad. 25% o'r cymhwyster.

# Bwyd a Maeth

Staff cyswllt: Mrs Non Knott

| | | |
|---|---|---|
| Bwrdd Arholi: CBAC | Math o gymhwyster: TGAU | Asesiad: 40% arholiad; 60% asesiad di-arholiad. |

## Pam astudio'r pwnc?

Mae astudio Bwyd a Maeth yn rhoi'r cyfle i ti gael profiad o wahanol agweddau o'r daith mae ein bwyd yn ei gymryd 'o'r fferm i'r fforc'. Mae'r pwnc yn rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth i ti o sut mae bwyd a diod yn effeithio ar dy iechyd a lles.

Bydd astudio Bwyd a Maeth yn helpu datblygu dy sgiliau coginio ymarferol, ac yn rhoi'r profiadau i feithrin yr hyder a'r sgiliau bywyd i wneud penderfyniadau gwybodus am faeth a bwyd. Mae'r wybodaeth rwyt ti'n ennill yn caniatáu i ti fwydo dy hun ac eraill yn fforddiadwy ac yn faethlon, nawr ac yn ddiweddarach mewn bywyd.

## Cynnwys y Cwrs

**Uned 1 – Egwyddorion Bwyd a Maeth.** Pwrpas yr uned yw datblygu dealltwriaeth o fwyd a maeth ac o baratoi a choginio bwyd. Bydd nodiadau yn seiliedig ar grwpiau nwyddau bwyd, maetholion, deiet ac iechyd, coginio bwyd, dirywiad bwyd, taith o'r fferm i'r fforc.
**Uned 2 – Ymchwiliad Bwyd.** Pwrpas yr uned hon yw deall rôl cynhwysion mewn rysáit. Bydd angen dysgu sut i gynllunio a chynnal ymchwiliad bwyd. Felly yn yr uned yma rwyt yn cael y cyfle i arbrofi gyda chynhwysion a grwpiau bwyd gwahanol.
**Uned 3 – Bwyd a Maeth ar Waith.** Pwrpas yr uned yw datblygu a defnyddio sgiliau a thechnegau ymarferol. Bydd yna gyfle i goginio a pharatoi bwydydd o wahanol ddiwylliannau a gwledydd, gan gynnwys bwydydd o Gymru, a seigiau sy'n bodloni gofynion grwpiau penodol e.e. llysieuwyr.

## Asesiadau

Ar ddiwedd Blwyddyn 11 bydd **arholiad digidol** 1 awr a 30 munud ar gynnwys **Uned 1** sydd yn werth 40% o'r marc terfynol.
Hefyd yn ystod y cwrs bydd rhaid i ti gwblhau **dau asesiad di-arholiad** yn yr ysgol:
Bydd asesiad **Uned 2** yn seiliedig ar ymchwiliad gwyddonol i fwyd ac yn werth 20% o'r marc terfynol. Bydd rhaid cynllunio a chwblhau arbrawf bwyd yn seiliedig ar dasg wedi'i gosod gan CBAC.
Ar gyfer asesiad **Uned 3** bydd rhaid cynllunio, paratoi, coginio a chyflwyno detholiad o seigiau i ateb rhyw ofynion penodol. Bydd y dasg yn cael ei gosod gan CBAC ac yn werth 40% o'r marc terfynol.

# Celf a Dylunio

Staff cyswllt: Mrs Kathryn Richards

| Bwrdd Arholi: CBAC | Math o gymhwyster: TGAU | Asesiad: 100% asesiad di-arholiad. |
|---|---|---|

## Pam astudio'r pwnc?

Os wyt ti'n berson creadigol, ac yn mwynhau creu ac edrych ar gelf, yna efallai mai dyma'r pwnc i ti. Mae'r marciau ar gyfer y cwrs wedi eu rhannu, gyda 60% yn dod o waith cwrs a'r 40% sy'n weddill yn dod o'r arholiad. Mae'n opsiwn da felly os nad wyt yn gweithio'n dda iawn o dan amodau arholiad cyffredinol. Mae'r gwaith cwrs yn golygu gwneud portffolio o waith yn seiliedig ar thema neu dasg sydd o ddiddordeb i'r unigolyn. Mae Celf yn hwyl, ond mae hefyd yn golygu llawer o waith caled, ac mae'r rhan fwyaf o bobl yn teimlo bod eu gwaith cwrs Celf angen mwy o amser nag yr oedden nhw'n ei ddisgwyl. Fe fydd angen i ti weithio'n gyson ar dy waith a bod yn hynod o drefnus. Os wyt ti'n dueddol o adael pethau i'r funud olaf, yna fe allu di fod mewn trwbl.

## Cynnwys y Cwrs

Mae'r uned gwaith cwrs yn cynnwys amrywiaeth eang o feysydd astudio e.e. gallwch astudio Celf a Dylunio yn gyffredinol neu efallai dy fod am arbenigo yn un o'r canlynol: Graffeg, Tecstilau a Ffasiwn, Ffilm a Ffotograffiaeth, Dylunio 3D neu Celf Gain.

Ti fydd yn dewis y thema ac fel arfer, mae'n un sy'n dy alluogi i feddwl ac ymateb yn greadigol e.e. Perthynas, Gwrthdaro, Natur, Amser. Fe fydd angen i ti gyflwyno dy waith mewn llyfr braslunio A3 ynghyd â darnau terfynol o waith.

## Asesiadau

Ar gyfer yr arholiad, fe fyddi di'n cael gwybod beth yw'r testunau rwyt ti'n gallu eu dewis 6 wythnos cyn yr arholiad ac fe fydd hyn yn rhoi amser i ti baratoi. Yna, fe fyddi di'n gorfod gwneud y gwaith dan amodau arholiad, sef 10 awr (2 ddiwrnod ysgol). Caiff yr holl waith arholiad ei farcio a'i hasesu'n fewnol gan yr adran a'i safoni'n allanol gan CBAC.

Mae'r gwaith cwrs yn werth 60% o'r marc terfynol ac felly mae'n hanfodol dy fod yn gweithio'n gyson yn ystod y ddwy flynedd. Caiff yr holl waith cwrs ei farcio'n fewnol gan yr adran a'i safoni'n allanol gan CBAC.

# Cerddoriaeth

Staff cyswllt: Mr Berian Lewis

| Bwrdd Arholi: CBAC | Math o gymhwyster: TGAU | Asesiad: 65% asesiad di-arholiad; 35% arholiad. |
|---|---|---|

## Pam astudio'r pwnc?

Hoffi canu neu ganu offeryn?
Hoffi cyfansoddi caneuon?
Hoffi gwrando ar ystod eang o Gerddoriaeth?
Mae Cerddoriaeth yn addas i ddisgyblion sydd a diddordeb mewn naill ai canu neu ganu offeryn, ac sy'n mwynhau gwrando ar amrywiaeth o gerddoriaeth a chyfansoddi, ac sydd efallai'n mwynhau cyfuniad o'r uchod.

## Cynnwys y Cwrs

**Uned 1: Perfformio**

Byddwch yn perfformio o leiaf dau ddarn o gerddoriaeth 4 a 6 munud o hyd. Galwch berfformio unawdau neu rannau annibynnol mewn ensembles, neu gyfuniad o'r ddau. Chi bydd yn dewis y darnau byddwch yn perfformio a gallu di ddewis perfformio ar unrhyw offeryn neu lais, neu dechnoleg, neu gyfuniad o'r rhain.

**Uned 2: Cyfansoddi**

Byddwch yn cyfansoddi dau ddarn gwreiddiol o gerddoriaeth yn para rhwng 3 a 6 munud - un yn ymateb i friff o'u cynllun eu hunain ac un yn ymateb i friff a osodwyd gan CBAC.

**Uned 3: Gwerthuso**

Byddwch yn astudio elfennau cerddorol, gan gynnwys: dynameg, ffurf, harmoni, alaw a thraw, ansawdd, tempo, rhythm a mesur, gward a chyweiredd ac yn gwrando ar ddarnau o gerddoriaeth er mwyn adnabod yr elfennau yma.

## Asesiadau

**Uned 1: Perfformio**
Asesiad di – arholiad (32.5% o'r cymhwyster).

**Uned 2: Cyfansoddi**
Asesiad di – arholiad (32.5% o'r cymhwyster).

**Uned 3: Gwerthuso**
Arholiad digidol (35% o'r cymhwyster).

# Daearyddiaeth

Staff cyswllt: Mr Alun Thomas

| Bwrdd Arholi: CBAC | Math o gymhwyster: TGAU | Asesiad: 60% arholiad; 40% asesiad di – arholiad. |
|---|---|---|

## Pam astudio'r pwnc?

Mae Daearyddiaeth yn ddiddorol ac yn berthnasol i fywydau pawb. Mae'n astudiaeth o'r byd o'n cwmpas, yng Nghymru, Ewrop a'r byd. Byddi di'n astudio materion amgylcheddol a chymdeithasol mewn mannau amrywiol ac yn astudio amrywiaeth o themâu, fel y gwelir isod yng nghynnwys y cwrs. Rhoddir cryn pwyslais ar ddatblygu dy sgiliau allweddol gyda chyfleoedd niferus i ti ddatblygu dy fedrau, datrys problemau a gweithio'n annibynnol. Byddi di'n datblygu dealltwriaeth aeddfed o faterion cyfoes gan anelu at dy wneud yn ddinesydd cyfrifol, sy'n gwerthfawrogi'r angen i fod yn gynaliadwy yn yr oes hon wrth uniaethu mewn modd pwrpasol â safbwyntiau grwpiau gwahanol o bobl.

## Cynnwys y cwrs

Wrth ddilyn y cwrs hwn byddi di'n cael y cyfle i astudio amrywiaeth o themâu dynol a ffisegol. Yr unedau yw:
Uned 1: Ein Byd Ffisegol a Dynol (afonydd, morliniau, mudo, aneddiadau)
Uned 2: Datblygu Sgiliau Gwaith Maes (pwrpas yr uned hon yw i archwilio gwaith maes a sgiliau ac i ddatblygu dealltwriaeth o'r model ymholi chwe cham)
Uned 3: Ein Byd Dynamig ac Amrywiol (anghydraddoldeb, y tywydd, newid hinsawdd, rheoli heriau byd-eang)
Uned 4: Datrysiadau Cynaliadwy (pwrpas yr uned hon yw archwilio materion daearyddol presennol a dyfodol cynaliadwy ac i ddatblygu sgiliau datrys problemau).

## Asesiadau

Ar ddiwedd Blwyddyn 10 bydd arholiad 1 awr a 30 munud ar Uned 1 sydd yn werth 30% o'r cymhwyster. Ar ddiwedd Blwyddyn 11 bydd arholiad 1 awr a 30 munud ar Uned 3 sydd yn werth 30% o'r cymhwyster.

Rhaid i ti gwblhau 2 asesiad di-arholiad. Bydd asesiad Uned 2 yn seiliedig ar waith maes ac yn werth 25% o'r cymhwyster. Bydd asesiad Uned 4 yn 'ymarferiad gwneud penderfyniad' ac yn werth 15% o'r cymhwyster.

# Drama

Staff cyswllt: Mrs Lowri Davies

| Bwrdd Arholi: CBAC | Math o gymhwyster: TGAU | Asesiad: 70% asesiad di-arholiad; 30% arholiad. |
|---|---|---|

## Pam astudio'r pwnc?

Byddi di'n datblygu ystod eang o sgiliau. Byddi di'n meithrin hyder ac yn cael hwyl. Byddi di'n dysgu i weithio fel rhan o dîm ac yn cydbwyso amrywiaeth o syniadau. Bydd gennyt ti gymysgedd o waith ymarferol ac ysgrifenedig yn wahanol i unrhyw bwnc arall.

## Cynnwys y Cwrs

Bydd TGAU Drama yn rhoi profiad eang a chytbwys o Ddrama i chi. Byddwch yn cael y cyfle i ddatblygu nid yn unig eich sgiliau perfformio ond hefyd eich sgiliau dylunio mewn meysydd fel: dylunio goleuadau a sain, dylunio set dylunio gwisgoedd, gwallt a cholur. Byddwch chi'n cydweithio i ddyfeisio eich darn o theatr eich hun ac yn perfformio mewn perfformiad o destun. Gallwch ddewis canolbwyntio ar actio neu ddylunio.
Byddwch chi'n archwilio amrywiaeth o destunau ac yn gweld amrywiaeth o gynyrchiadau theatr byw.
Mae manyleb TGAU Drama CBAC yn cynnwys tair uned: Dyfeisio Theatr, Perfformio Theatr, a Dehongli Theatr.

## Asesiadau

Bydd dau arholiad ymarferol, gwaith cwrs ac un arholiad ysgrifenedig.

**Uned 1: Dyfeisio Theatr 40%** .
Byddwch chi'n cymryd rhan yn y gwaith o lunio, datblygu a pherfformio darn o theatr wedi'i dyfeisio.

**Uned 2: Perfformio Theatr 30%** .
Byddwch chi'n astudio dau ddarn o'r un testun a ddewiswyd gennych chi neu eich athrawes. Gallwch chi ddewis cael eich asesu ar actio neu ddylunio.

**Uned 3: Dehongli Theatr 30%**
Arholiad ysgrifenedig.

# Dylunio a Thechnoleg: Dylunio Cynnyrch

Staff cyswllt: Mr Robyn Davies

| Bwrdd Arholi: CBAC | Math o gymhwyster: TGAU | Asesiad: 30% arholiad; 70% gwaith cwrs. |
|---|---|---|

## Pam astudio'r pwnc?

Mae'r cymhwyster hwn mewn Dylunio a Thechnoleg yn cynnig cyfle unigryw yn y cwricwlwm i ddysgwyr adnabod a datrys problemau go iawn trwy ddylunio a gwneud cynhyrchion neu systemau. Bydd y dysgwyr yn barod i gymryd rhan yn hyderus a llwyddiannus mewn byd sy'n fwyfwy technolegol wrth ddatblygu amrywiaeth o sgiliau cyfathrebu gan gynnwys sgiliau llafar, graffigol, TGCh a modelu. Mae'r cwrs yn addas iawn ar gyfer disgyblion sydd â diddordeb mewn gyrfa yn y maes Celf a Dylunio, Gwyddoniaeth neu Beirianneg.

## Cynnwys y Cwrs

Mae'r cwrs yn datblygu ystod a dyfnder priodol o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn dylunio a thechnoleg. Byddi di yn cynllunio a gwneud cynhyrchion arloesol sydd yn adlewyrchu datblygiadau cymdeithasol. Mae'r cwrs wedi ei seilio ar weithgareddau ymarferol sydd yn cynnwys dadosod cynnyrch, dylunio, gwerthuso a chynhyrchu. Cei di gyfle i ddatblygu dealltwriaeth o ddefnyddiau a chydrannau. Byddi di yn dysgu sut i ddefnyddio amrywiaeth o offer llaw, peiriannau a meddalwedd gan gynnwys offer cynllunio a chynhyrchu drwy gymorth cyfrifiadur. Byddi di'n defnyddio systemau TGCh i brosesu testun, dadansoddi data, cynhyrchu delweddau / modelau 2D a 3D a thrîn delweddau digidol.

## Asesiadau

Bydd angen cwblhau tasg ddylunio a chynhyrchu dan reolaeth yn yr ysgol. Mae'r dasg hon werth 70% o farciau terfynol y cwrs.

Bydd un papur arholiad ysgrifenedig werth 30% o holl farciau'r cwrs. Bydd y papur arholiad yn profi dy ddealltwriaeth o'r canlynol:

- Datblygu cynllunio a chyfathrebu syniadau
- Dadansoddi cynnyrch
- Cynaladwyedd a materion deddfwriaethol
- Dylunwyr eraill
- Arferion diwydiannol a masnachol
- Defnyddiau a chydrannau
- Offer a chyfarpar
- TGCh CAD/CAM
- Systemau a phrosesau

# Dysgu'n yr Awyr Agored

**Staff cyswllt: Mr John Norgrove**

| Bwrdd Arholi: Agored Cymru | Math o gymhwyster: Lefel 2 Galwedigaethol | Asesiad: 100% aseiniadau. Dim arholiad |
|---|---|---|

## Pam astudio'r pwnc?

Mae astudio Dysgu yn yr Awyr Agored yn opsiwn gwych os ydych chi'n mwynhau bod yn egnïol, gweithio gydag eraill a dysgu mewn amgylcheddau go iawn yn hytrach na dim ond yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r cwrs yn rhoi cyfle i chi adeiladu hyder, sgiliau tîm a datrys problemau drwy brofiadau ymarferol yn yr awyr agored megis mordwyo, prosiectau amgylcheddol, heriau tîm ac archwilio'r byd naturiol. Byddwch yn datblygu gwydnwch, arweinyddiaeth a sgiliau cyfathrebu sy'n werthfawr ar gyfer unrhyw yrfa yn y dyfodol, yn ogystal â gwella eich lles corfforol a meddyliol. Os ydych chi'n hoffi dysgu ymarferol, eisiau darganfod llefydd newydd ac yn mwynhau dysgu drwy wneud, yna mae Dysgu yn yr Awyr Agored yn ddewis cyffrous a gwerth chweil.

## Cynnwys y cwrs

**Unedau gorfodol:**

- Diogelwch Personol wrth Ddysgu yn yr Awyr Agored
- Defnyddio Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Yn ddibynnol ar yr unigolion, bydd dewis gan yr ysgol i ddewis unedau addas ar gyfer y disgyblion.

**Esiamplau o unedau opsiynol:**

- Manteision yr Awyr Agored ar Iechyd
- Cymryd rhan mewn Gweithgaredd Dŵr
- Cymryd rhan mewn Gweithgaredd ar y Tir
- Sgiliau ymarferol yn yr awyr agored
- Gwaith tîm

## Asesiadau

Caiff yr holl waith ei asesu wrth gwblhau tasgau'n yr ystafell ddosbarth a thasgau ymarferol.

Nid oes arholiad.

# Ffrangeg

Staff cyswllt: Miss Claire Russell

| Bwrdd Arholi: CBAC | Math o gymhwyster: TGAU | Asesiad: 55% arholiad; 45% asesiad di – arholiad. |
|---|---|---|

## Pam astudio'r pwnc?

Gall TGAU mewn Ffrangeg agor byd o gyfleoedd i chi. Mae ystod eang o lwybrau gyrfa y gallech eu dilyn gyda TGAU mewn ieithoedd, gan gynnwys yn y diwydiant twristiaeth mwy traddodiadol, y lluoedd arfog, gwasanaethau iaith megis cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, addysgu a gwasanaethau cymdeithasol.

Mae astudio TGAU Ffrangeg yn ddewis doeth am nifer fawr o resymau: mae'n sgil werthfawr, mae'n ateb gofynion nifer fawr o gyflogwyr, mae'n galluogi disgyblion i astudio iaith dramor fel rhan o'u gradd, mae'n cynnig llu o brofiadau newydd, mae'n gyfle amhrisiadwy i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau pobl a gwledydd eraill.

Mae cymhwyster mewn Ieithoedd Rhyngwladol yn dangos eich bod yn gyfathrebwr da, yn barod i ddysgu, addasu a chamu allan o'ch "man cysurus" - yn ddymunol iawn i unrhyw ddarpar gyflogwr. Efallai y bydd hefyd o ddiddordeb i chi wybod yn y byd busnes byd-eang sydd ohoni, mae'n hysbys bod gweithwyr sydd â sgiliau mewn ieithoedd rhyngwladol yn denu cyflogau uwch!

## Cynnwys y Cwrs

Mae'r themâu rydym yn astudio'n cynnwys: adloniant a hamdden, iechyd a ffitrwydd, bwyd a diod, gwyliau a dathliadau, amgylchedd, technoleg a chyfryngau cymdeithasol, bywyd ysgol a themâu diwylliannol am y gwledydd lle siaredir Ffrangeg. Byddwch yn dysgu iaith ddefnyddiol y gallech ei defnyddio mewn sefyllfaoedd sy'n ymwneud a hamdden a llesiant, teithio ac astudio neu weithio.

## Asesiadau

Mae 4 uned i'r cwrs. Asesir dwy mewn arholiadau ym mlwyddyn 11. Cwblheir y ddwy uned arall fel asesiadau di-arholiad yn eich ystafell ddosbarth, hefyd ym mlwyddyn 11.

Uned 1 – Llafaredd (30%). Asesiad di-arholiad.

Uned 2 – Darllen ac Ysgrifennu (15%). Asesiad di- arholiad.

Uned 3 – Gwrando (20%). Arholiad.

Uned 4 – Darllen ac Ysgrifennu (35%). Arholiad.

# Gwyddoniaeth Triphlyg

Staff cyswllt: Miss Catrin Pritchard

| Bwrdd Arholi: CBAC | Math o gymhwyster: TGAU | Asesiad: 90% arholiad; 10% asesiad ymarferol. |
|---|---|---|

## Pam astudio'r pwnc?

Wrth ddilyn cwrs Gwyddoniaeth Triphlyg mae yna gyfle i ti gael dy ysbrydoli a dy herio drwy ddilyn cwrs astudio eang, ymarferol a gwerthfawr. Fe gei di'r profiad o weld sut mae gwyddoniaeth yn gweithio a dy annog i ymgysylltu gwyddoniaeth yn dy fywyd a gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch astudiaethau pellach a dewisiadau gyrfa.

## Cynnwys y cwrs

Bioleg 1: y systemau resbiradaeth, treuliad a chylchrediad gwaed mewn bodau dynol. Planhigion a ffotosynthesis.
Bioleg 2: Cellraniad a chelloedd bonyn, DNA ac etifeddiad. Clefyd, amddiffyniad a thriniaeth.
Cemeg 1: Adeiledd atomig a'r Tabl Cyfnodol, adweithiau cemegol a'r Ddaear sy'n newid yn barhaus.
Cemeg 2: Bondio, adeiledd a phriodweddau, metelau ac echdynnu metelau. Olew crai a thanwyddau.
Ffiseg 1: cylchedau, trydan domestig a phriodweddau tonnau.
Ffiseg 2: Deddfau Newton, sêr, planedau ac egni niwclear.

## Asesiadau

Arholiadau ysgrifenedig ar ddiwedd Blwyddyn 10: Bioleg 1, Cemeg 1, Ffiseg 1 (gwerth 45% o bob cymhwyster).

Arholiadau ar ddiwedd Blwyddyn 11: Bioleg 2, Cemeg 2, Ffiseg 2 (gwerth 45% o bob cymhwyster).

Mae arholiad ymarferol ym mhob un o'r tri pwnc sydd yn werth 10%. Bydd yr asesiad yma'n cael ei gwblhau ym Mlwyddyn 11.

# Hanes

**Staff cyswllt: Mrs Bethan Hubbard**

| Bwrdd Arholi: CBAC | Math o gymhwyster: TGAU | Asesiad: 60% arholiad; 40% asesiad di – arholiad. |
|---|---|---|

## Pam astudio'r pwnc?

*'Rwy'n astudio Hanes oherwydd mae gennyf ddiddordeb yn y dyfodol.' (Nelson Mandela).*

Rydym i gyd yn byw mewn byd rhyng-gysylltiedig sy'n newid yn gyson. Mae deall digwyddiadau hanesyddol yn hanfodol i wneud synnwyr o ddigwyddiadau cyfredol. Mae TGAU Hanes yn ein cynorthwyo i gyflawni hyn drwy archwilio digwyddiadau a ffigurau arwyddocaol o'r gorffennol a'u dylanwad ar ein presennol. Mae Colegau a Phrifysgolion yn gweld gwerth mawr mewn Hanes fel pwnc chyflogwyr bob amser yn chwilio am bobl ifanc sy'n gallu meddwl yn feirniadol ac yn ddadansoddol. Gall astudio TGAU Hanes eich helpu gymryd y camau cyntaf tuag at amrywiaeth o lwybrau gyrfa. Byddi di'n mwynhau astudio'r gorffennol – roedd pobl y gorffennol yr un mor glyfar, twp a diddorol â phobl heddiw!

## Cynnwys y cwrs

Mae'r adran Hanes yn dilyn cwrs CBAC sy'n eich caniatáu i archwilio detholiad eang ac amrywiol o destunau o wahanol gyfnodau a chymdeithasau hanesyddol. Rhoddir pwyslais ar ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth hanesyddol yn ogystal â datblygu sgiliau pwysig megis dadansoddi a dehongli ffynonellau. Dyma'r unedau a astudir:

Uned 1: Cymru a'r Tuduriaid cynnar tua 1485 – tua 1547 (arholiad).
Uned 2: Genghis Khan tua 1162 – tua 1227 (asesiad di-arholiad).
Uned 3: Cymdeithas America tua 1880 – tua 1980 (arholiad).
Uned 4: Prydain yn yr 20fed ganrif (asesiad di-arholiad).

## Asesiadau

Bydd un arholiad ar ddiwedd Blwyddyn 10 ac un ar ddiwedd Blwyddyn 11. Bydd yr arholiadau hyn gwerth 60% o holl farciau'r cwrs.

Bydd rhaid cwblhau dwy uned o dan reolaeth yn yr ysgol ac mae'r tasgau hyn gwerth 40% o farciau terfynol y cwrs. Bydd eich athro / athrawes yn rhoi'r wybodaeth o flaen llaw am ofynion y tasgau a bydd y gwaith paratoi ar gyfer yr aseiniad yn cael ei wneud yn y dosbarth. Bydd un asesiad di-arholiad yn cael ei cwblhau ar lein, a'r llall yn ysgrifenedig.

# Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant

Staff cyswllt: Mrs Tracy Jenkins

| Bwrdd Arholi: CBAC | Math o gymhwyster: TGAU | Asesiad: 40% arholiad; 60% aseiniadau. |
|---|---|---|

## Pam astudio'r pwnc?

Mae Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal plant yn bwnc diddorol byddwch yn mwynhau. Bydd astudio'r pwnc yn eich cynorthwyo i ddatblygu dealltwriaeth a sgiliau ar ystod o gyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant. Bydd yn rhoi ystod o safbwyntiau i chi ar effeithiau gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant ar y gymdeithas. Byddwch yn datblygu ymwybyddiaeth o lwybrau gyrfa sydd ar gael yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant. Bydd y cymhwyster yn rhoi llawer o gyfleoedd i chi os oes gennych ddiddordeb mewn gweithio o fewn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gofal plant.

## Cynnwys y Cwrs

**Uned 1**
- Twf, datblygiad a lles dynol drwy gydol y cylch bywyd a'r ffactorau sy'n dylanwadu arnynt.
- Deddfwriaeth berthnasol a'r gwasanaethau ym maes: iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant.
- Deall yr egwyddorion craidd, gwerthoedd a dulliau gweithio proffesiynol yn y sectorau hyn.

**Uned 2**
- Gwybodaeth a dealltwriaeth am anghenion unigol, cyflyrau a salwch allweddol mewn oedolion.
- Sut mae gweithwyr yn y maes yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol.

**Uned 3**
- Cyfnodau bywyd.
- Datblygiad corfforol, deallusol, ieithyddol, emosiynol a chymdeithasol plant.
- Cyflyrau a salwch plant a sut mae gweithwyr proffesiynol yn diawllu anghenion plant.

## Asesiadau

**Uned 1 –** Uned Arholiad, 40% o'r radd derfynol. Arholiad ar ddiwedd Blwyddyn 10.

**Uned 2 –** Asesiad di- arholiad, 30% o'r radd derfynol.

**Uned 3 –** Asesiad di-arholiad, 30% o'r radd derfynol.

# Peirianneg

Staff cyswllt: Mr Robyn Davies

| Bwrdd Arholi: EAL | Math o gymhwyster: BTEC Lefel 2 | Asesiad 100% di -arholiad |
|---|---|---|

## Pam astudio'r pwnc?

Mae'r cymhwyster hwn mewn Peirianneg yn cynnig cyfle yn y cwricwlwm i fyfyrwyr ddysgu sgiliau peirianneg go iawn drwy gwblhau nifer o dasgau heriol yn defnyddio metelau wrth wneud cynhyrchion. Bydd yn paratoi dysgwyr i gymryd rhan mewn gwaith peirianneg neu dechnolegol ac i fod yn hyderus wrth ddefnyddio offer y gweithdy mewn ffordd ddiogel a llwyddiannus. Mae'r cwrs yn addas iawn ar gyfer disgyblion sydd â diddordeb mewn gyrfa yn y meysydd dylunio, gwyddoniaeth neu beirianneg.

## Cynnwys y Cwrs

Mae'r cwrs yn datblygu ystod a dyfnder priodol o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn peirianneg. Byddi di yn astudio iechyd a diogelwch a sut i weithio yn ddiogel mewn amgylchedd ddiwydiannol. Mae'r cwrs wedi ei selio ar weithgareddau ymarferol sydd yn cynnwys adeiladu nifer o gynhyrchion yn defnyddio sgiliau peirianneg gwahanol. Bydd angen i ti ddysgu sut i weithio i fanylder cywir iawn a defnyddio offer mesur i werthuso dy waith. Byddi di'n dysgu sut i ddefnyddio amrywiaeth o offer llaw a pheiriannau. Byddi di yn cadw portffolio o waith i ddangos a recordio dy ganlyniadau.

## Asesiadau

Mae'r gwaith cwrs yn cynnwys nifer o dasgau cynhyrchu. Byddant yn cynyddu mewn cymhlethdod wrth i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau wrth fesur a marcio'n gywir. Defnyddiwn offer gwahanol i dorri a siapio metel. Bydd angen paratoi gwybodaeth cyn y dasg er mwyn ei ddefnyddio yn yr asesiadau, Bydd angen i ddysgwyr hunanasesu eu gwaith ymarferol yn erbyn mesuriadau penodol. Caiff y rhain eu hasesu'n fewnol gan yr Staff ac yn allanol gan y bwrdd arholi. Yn ogystal, mae myfyrwyr yn astudio gwahanol elfennau o Beirianneg yn y gweithle, gan gynnwys iechyd a diogelwch, offer a phrosesau. Bydd cwestiynau ysgrifenedig yn asesu eu gwybodaeth o'r elfennau hyn. Caiff bob darn o waith ei gwblhau yn y gweithdy.

Nid oes arholiad yn y pwnc.

# Peirianneg Ceir

Staff cyswllt: Mrs Nia Courtney

| | | |
|---|---|---|
| Bwrdd Arholi: IMI | Math o gymhwyster: Lefel 2 Galwedigaethol | Asesiad 75% aseiniadau; 25% arholiad |

## Pam astudio'r pwnc?

Bwriedir y cymhwyster gwybodaeth a sgiliau (VRQ) hwn yn bennaf i ddiwallu anghenion y Prentis ifanc. Mae'n addas i ddisgyblion Blwyddyn 10 ac 11 sy'n dymuno symud ymlaen i'r diwydiant modurol mewn amrywiaeth o wahanol feysydd, gwerthiant, gwasanaeth a chydrannau cerbydau. Mae'r cwrs hwn yn cael ei redeg mewn partneriaeth gyda Choleg Sir Gâr ac yn cael ei ddysgu gan arbenigwyr yn y maes.

## Cynnwys y Cwrs

Mae'n darparu cyfle i ddysgwyr astudio agweddau theori ac ymarfer ystod o weithdrefnau arferol yn ymwneud gydag archwilio, ffitio a chynnal a chadw cerbydau:

- Gwaith cynnal a chadw arferol cerbydau ysgafn, gan gynnwys system injan
- Archwilio, atgyweirio ac amnewid mewn cerbydau ysgafn
- Cyflawni gwaith alinio pedair olwyn
- Iechyd a diogelwch yn y gweithle

## Asesiadau

Mae'r asesiad yn cynnwys dwy elfen:

- Tasgau ymarferol
- Profion ar – lein.

Nifer cyfyngedig o ddisgyblion sy'n gallu astudio'r pwnc hwn oherwydd natur y gweithdy.

# Sbaeneg

Staff cyswllt: Miss Claire Russell

| Bwrdd Arholi: CBAC | Math o gymhwyster: TGAU | Asesiad 55% arholiad; 45% asesiad di - arholiad |
|---|---|---|

## Pam astudio'r pwnc?

Gall TGAU mewn Sbaeneg agor byd o gyfleoedd i chi. Mae ystod eang o lwybrau gyrfa y gallech eu dilyn gyda TGAU mewn ieithoedd, gan gynnwys yn y diwydiant twristiaeth fwy traddodiadol, y lluoedd arfog, gwasanaethau iaith megis cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, addysgu a gwasanaethau cymdeithasol.

Mae astudio TGAU Sbaeneg yn ddewis doeth am nifer fawr o resymau: mae'n sgil werthfawr, mae'n ateb gofynion nifer fawr o gyflogwyr, mae'n galluogi disgyblion i astudio iaith dramor fel rhan o'u gradd, mae'n cynnig llu o brofiadau newydd, mae'n gyfle amhrisiadwy i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau pobl a gwledydd eraill.

Mae cymhwyster mewn Ieithoedd Rhyngwladol yn dangos eich bod yn gyfathrebwr da, yn barod i ddysgu, addasu a chamu allan o'ch "man cysurus" - yn ddymunol iawn i unrhyw ddarpar gyflogwr. Efallai y bydd hefyd o ddiddordeb i chi wybod yn y byd busnes byd-eang sydd ohoni, mae'n hysbys bod gweithwyr sydd â sgiliau mewn ieithoedd rhyngwladol yn denu cyflogau uwch!

## Cynnwys y Cwrs

Mae'r themâu rydym yn astudio'n cynnwys: adloniant a hamdden, iechyd a ffitrwydd, bwyd a diod, gwyliau a dathliadau, amgylchedd, technoleg a chyfryngau cymdeithasol, bywyd ysgol a themâu diwylliannol am y gwledydd lle siaredir Sbaeneg. Byddwch yn dysgu iaith ddefnyddiol y gallech ei defnyddio mewn sefyllfaoedd sy'n ymwneud a hamdden a llesiant, teithio ac astudio neu weithio.

## Asesiadau

Mae 4 uned i'r cwrs. Asesir dwy mewn arholiadau ym mlwyddyn 11. Cwblheir y ddwy uned arall fel asesiadau di-arholiad yn eich ystafell ddosbarth, hefyd ym mlwyddyn 11.

Uned 1 – Llafaredd (30%). Asesiad di-arholiad.

Uned 2 – Darllen ac Ysgrifennu (15%). Asesiad di- arholiad.

Uned 3 – Gwrando (20%). Arholiad.

Uned 4 – Darllen ac Ysgrifennu (35%). Arholiad.

# Technoleg Ddigidol

Staff cyswllt: Mr Chris Lacey

| Bwrdd Arholi: CBAC | Math o gymhwyster: TGAU | Asesiad: 60% asesiad di-arholiad; 40% arholiad. |
|---|---|---|

## Pam astudio'r pwnc?

Mae sgiliau digidol yn hanfodol ar gyfer bywyd bob dydd, o'r ystafell ddosbarth i'r gweithle a phopeth yn y canol. Mae dewis Technoleg Ddigidol ar lefel TGAU yn gam doeth i ddysgwyr sy'n mwynhau creadigrwydd, datrys problemau a gweithio gyda thechnoleg, ac i'r rhai sydd am weithio mewn meysydd cyffrous megis graffeg, animeiddio, gemau, datblygu meddalwedd, dylunio gwe, profi, neu'r diwydiant technoleg ehangach. Mae'r cwrs blaengar hwn yn helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau digidol lefel uchel sy'n meithrin hyder, yn sbarduno arloesedd, ac yn agor drysau at astudiaethau a gyrfaoedd yn y dyfodol. Pa bynnag lwybr a ddewiswch, mae Technoleg Ddigidol TGAU yn sicr o roi cychwyn cryf i chi mewn byd mwy digidol.

## Cynnwys y cwrs

Mae Technoleg Ddigidol TGAU yn gwrs ddeinamig sy'n canolbwyntio ar y dyfodol ac sy'n dod â'r byd digidol yn fyw. Mae dysgwyr yn archwilio sut mae data, dyfeisiau, meddalwedd a rhwydweithiau yn pweru popeth o apiau a gwefannau i gyfathrebu byd-eang, gan fynd i'r afael â materion byd go iawn megis seiberddiogelwch, diogelwch ar-lein, ac effaith foesegol technoleg. Nodwedd amlwg o'r cwrs yw'r prosiectau digidol ymarferol, lle mae dysgwyr yn dylunio ac yn creu eu datrysiad digidol eu hunain i broblem go iawn, gan ddatblygu creadigrwydd, hyder a sgiliau ymarferol y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi. Os ydych yn ddysgwr chwilfrydig, creadigol a thechnegol, mae Technoleg Ddigidol TGAU yn sicr o agor y drws i yrfa gyffrous ac yn rhoi'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen ar gyfer dyfodol digidol.

## Asesiadau

**Uned 1: Y Byd Digidol (40%):** Deall cysyniadau allweddol, gan gynnwys sut mae systemau digidol yn gweithredu, natur a defnydd data, effaith technoleg ddigidol ar sefydliadau, ac ystyriaethau hanfodol o ran diogelwch.

**Uned 2: Arferion Digidol (40%):** Datblygu sgiliau digidol ymarferol drwy ddylunio, datblygu a phrofi datrysiadau digidol ar gyfer senario penodol, megis creu gêm neu animeiddiad ac adeiladu gwefan gan ddefnyddio pecynnau meddalwedd proffesiynol.

**Uned 3: Cyfathrebu yn y Byd Digidol (20%):** Datblygu sgiliau cyfathrebu creadigol trwy gynhyrchu ymgyrch farchnata ddigidol gan ddefnyddio meddalwedd golygu fideo mewn ymateb i senario penodol.

# Trin Gwallt a Harddwch

Staff cyswllt: Mrs Nia Courtney

| Bwrdd Arholi: VTCT | Math o gymhwyster: Lefel 2 Galwedigaethol | Asesiad 100% asesiad di - arholiad |
|---|---|---|

## Pam astudio'r pwnc?

Prif bwrpas y cymhwyster yw caniatáu dysgwyr i ddatblygu sgiliau gwallt a harddwch, technegau a gwybodaeth i'w paratoi am astudiaethau galwedigaethol Bellach. Paratoir dysgwyr yn uniongyrchol ymhob uned ar gyfer astudiaethau Bellach yn y sector harddwch. Cynlluniwyd yr unedau fel Sylfaen i weithio yn y sector gwallt a harddwch. Datblygir gwybodaeth o'r sector gwallt a harddwch i ganiatáu dilyniant i Trin Gwallt neu therapi harddwch. Bydd disgyblion yn teithio i ganolfan hamdden Caerfyrddin nôl i'r ysgol a chaiff y cwrs ei gyflwyno un prynhawn yr wythnos dros gyfnod o ddwy flynedd gan staff Coleg Sir Gâr sy'n arbenigo'n y maes.

## Cynnwys y Cwrs

Mae'r cwrs yn cynnwys unedau celf ewinedd sylfaenol, gofal croen sylfaenol, sychu a pharatoi gwallt sylfaenol, golchi a thrin gwallt, platio a throelli gwallt sylfaenol, triniaeth dwylo, gweithio gyda'r diwydiannau gwallt a harddwch a lliwio gwallt gan ddefnyddio lliwiau dros dro.

Bydd rhaid i fyfyrwyr gwblhau amrywiaeth o asesiadau ymarferol ynghŷd ag aseiniadau ym mhob uned.

## Asesiadau

**Cydbwysedd aseiniadau tan reolaeth / arholiadau:**
100% aseiniadau
Dim arholiad

Er gwybodaeth, nifer cyfyngedig o ddisgyblion sydd yn gallu astudio'r pwnc hwn.

# Twristiaeth

Staff cyswllt: Mrs Nia Courtney

| Bwrdd Arholi: CBAC | Math o gymhwyster: Lefel 2 Galwedigaethol | Asesiad: 25% arholiad; 75% aseiniadau |
|---|---|---|

## Pam astudio'r pwnc?

Mae'r diwydiant hamdden a thwristiaeth yn un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yn y byd, ac mae'n cyflogi dros ddwy filiwn o bobl yn y Deyrnas Unedig. Trwy astudio TGAU Twristiaeth, byddi di'n datblygu dealltwriaeth ymarferol o sut mae'r diwydiant yn gweithio — o reoli cyllidebau a chreu ymgyrchoedd hysbysebu i ddeall profiad y cwsmer a sut mae digwyddiadau a busnesau'n cael eu rheoli. Byddi di hefyd yn cael cyfle i archwilio cyrchfannau twristiaeth cyffrous ledled y byd, gan weld sut mae diwylliant, amgylchedd a'r economi'n dylanwadu ar dwristiaeth. Mae'r cwrs yn gyfuniad o waith ymarferol ac ymchwil. Gall cymhwyster mewn Twristiaeth agor y drws i amrywiaeth eang o swyddi — o fod yn hyfforddwr sgio, cynrychiolydd gwyliau neu reolwr gwesty i weithio mewn digwyddiadau, marchnata neu deithio rhyngwladol. Mae'n bwnc sy'n cynnig cyfleoedd byd-eang... ac antur!

## Cynnwys y Cwrs

**Uned 1 – Profiad y Cwsmer**
Ffocws yr uned hon yw archwilio sut mae sefydliadau'n diwallu anghenion gwahanol gwsmeriaid a sut mae profiad cwsmer yn effeithio ar lwyddiany busnes.

**Uned 2 – Busnes Twristiaeth**
Ffocws yr uned hon yw dysgu am bwysigrwydd diwydiant twristiaeth, effeithiau'r busnesau ar yr economi a sut mae sefydliadau'n delio ag heriau.

**Uned 3 – Datblygu Cyrchfannau i dwristiaid yn y Deyrnas Unedig**
Yn yr uned yma, y ffocws yw archwilio pa ffactorau sy'n gwneud cyrchfannau yn apelgar i dwristiaid (megis atyniadau, marchnata, trafnidiaeth, hanes a diwylliant) a dysgu sut mae sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd i wella cyrchfannau.

## Asesiadau

Bydd Uned 2 yn arholiad 1 awr 15 munud o hyd.

Gwaith cwrs yw Uned 1 a 3 caiff ei farcio gan yr athrawes a'i safoni gan y bwrdd arholi. Bydd rhaid cynhyrchu portffolio o dystiolaeth asesu ar gyfer yr unedau yma a bydd hwn yn werth 75% o dy farc terfynol yn y pwnc.

Rhaid llwyddo ym mhob asesiad er mwyn ennill y cymhwyster hon.

# Diolch